# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel
Nos Fawrth, Medi 6ed 2022 am 7.30 o’r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Eifon Davies (is-gadeirydd), Rita Jones, Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris a’r clerc.
Ymddiheuriadau: Iolo V. Evans, Gwenda Evans a’r Cyng. Elwyn Edwards.

Gan fod Maldwyn Jones yn methu bod yn bresennol cytunodd Eifion Davies i gadeirio’r cyfarfod.

i) Darllen a chadarnhau’r Cofnodion (Gorffennaf 5ed 2022) **CYMERADWYWYD.**

ii) Datgan Buddiant – **DIM**

iii) Materion yn codi o’r Cofnodion.
a) Ymateb i’r materion o’r cyfarfod diwethaf **– NODWYD FOD Y MATERION WEDI CAEL SYLW.**
b) Mynwentydd **- ER I SWYDDOG CYNGOR GWYNEDD ADDO GOSOD Y POLYN I’R ARWYDD NEWYDD GER MYNEDFA MYNWENT LLANDDERFEL NID OEDD YN EI LE. ROEDD ADEWID I ORFFEN PEINTIO’R GIATIAU'R WYTHNOS YMA.**
c) Fferm Wynt Gaerwen - **CAFWYD ADRODDIAD O GYFARFOD GYDA’R CWMNI PR. NODWYD FOD BWRIAD CYNNAL DIGWYDDIAD YN LLANDRILLO I RANNU GWYBODAETH AM Y PROSIECT. PWYSLEISIWYD FOD ANGEN YMGYNGHORI A THRIGOLION CYMUNED LLANDDERFEL HEFYD A CHYNNIG CYFLE IDDYNT DRAFOD CYNLLUNIAU'R CWMNI, YN BENNAF I DRAFOD EU CYNLLUNIAU I GREU MYNEDIAD I’R SAFLE AR YMYRRAETH Y BYDDAI HYN YN CREU.**
ch) Gweithdai Ardal Ni 2035 – **GYTUNODD RITA JONES A BETHAN THOMAS FYNYCHU’R CYFARFOD AR RAN Y CYNGOR.**
d) Cynllun Hyfforddiant **– CYMERADWYWYD Y CYNLLUN YR OEDD Y CLERC WEDI EI BARATOI.**
dd) Meinciau llwybr troed Llanfor i Bala **- NID OEDD CYNGOR GWYNEDD NA’R ASIANTAETH YN CYMRYD CYFRIFOLDEB OHONYNT. GAN FOD EU CYFLWR MOR SÂL CYTUNWYD I’W CLIRIO RHAG OFN I RYWUN FRIFO.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd.
ii) Gwybodaeth am y gwasanaeth Tîm Tacluso Ardal Ni.
iii) Rhaglen waith yr adran priffyrdd a bwrdeistrefol.
iv) Cefnogi Prosiectau Ymarferol.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Ymgynghoriad Treth Cyngor Tecach.
ii) Rhaglen cyfleusterau cymunedol – cynllun grant cyfalaf.
iii) Adran 6 y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau **- CYTUNWYD I DDEFNYDDIO’R WYBODAETH WRTH ADOLYGU EU POLISI YN DDIWEDDARACH YN Y FLWYDDYN.**

c) Amrywiol.
i) Dwr Cymru - diweddariad ar y gwaith hanfodol sydd angen ei gyflawni yng nghronfa ddŵr Llyn Celyn.
ii) Parc Cenedlaethol Eryri – cyfarfodydd blynyddol cynghorau cymuned a thref gyda’r Parc.
iii) Triathlon Y Bala 2022 – diweddariad.
iv) Cyfoeth Naturiol Cymru - diweddariad gwaith diogelwch ar gronfa ddŵr Llyn Tegid.
v) Daily Post – cais am newyddion lleol.
vi) Llythyr gan un o drigolion Llanfor ynglŷn â’r goryrru trwy’r pentref **- ROEDD Y CLERC EISOES WEDI YMATEB GAN ANFON YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I GWYNION DIWEDDARAF Y CYNGOR CYMUNED YNGLŶN AR DDAMWEINIAU AR Y A494.**

## v) Ceisiadau Cynllunio

a) i) C22/0714/44/LL – Cyfnewid adeilad unllawr allanol/ sied a ddinistriwyd gan dân, Gelli, Llandderfel.
ii) Ymgynghoriad Cyd-ymgeisio Llyn Celyn.
iii) C22/07748/04/DT – Estyniadau cefn ac ochr arfaethedig ac addasiadau cyffredinol, Dol Gu, Maerdy.
**NID OEDD Y CYNGHORWYR YN YMWYBODOL O UNRHYW WRTHWYNEBIAD I'R CEISIADAU.**
b) Cwyn gan un o drigolion pentref Frongoch ynglŷn â chais cynllunio cymydog**. - ROEDD Y CLERC WEDI GYRRU YMATEB CYCHWYNNOL PAN DDERBYNIWYD CWYN FOD Y CYNGOR CYMUNED HEB YMGYNGHORI A'R CYMYDOG YNGLŶN Â'R CAIS. CYTUNWYD I YRRU LLYTHYR SWYDDOGOL YN CADARNHAU'R PWYNTIAU A DRAFODWYD.**

## vi) Materion Ariannol

a) Derbyniadau – Ail-randal y Praesept £4,500, £500 grant Parc Cenedlaethol – **CYDNABWYD.**
b) Taliadau - Gyngor Gwynedd (archwiliad mewnol 2021/22) - £216**,** Pethe Penllyn (hysbyseb archwilio mynwentydd), Neuadd Bro Derfel (cyfraniad i brosiect ail agor y toiledau) **CYMERADWYWYD**
c) Archwilio Cymru – ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd 2023-24.
ch) Ceisiadau ariannol - Cerebral Palsy Cymru a Gofal Canser Tenevus **- CYTUNWYD I DDILYN Y DREFN ARFEROL A'U TRAFOD YN EIN CYFARFOD YM MIS MAWRTH.**

## vii) Materion lleol.

a) Cais i wella llwybrau troed mynwent Frongoch **– CYTUNWYD I WNEUD YMHOLIADAU FAINT FYDDAI COST O YMESTYN Y LLWYBR TROED TUAG AT Y BEDDI NEWYDD.**
b) **CYTUNWYD I ANFON Y CWYNION I'R ADRANNAU PERTHNASOL.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH HYDREF 4YDD YN NEUADD MYNACH.**